Hawdd i'w Ddarllen

professional standards authority
for Health and Social Care

# Safonau

## I Reolyddion a Chofrestrau Achrededig Gofal Iechyd

2026








# Cynnwys





**Rhagarweiniad**
Tudalen 6



**Safon 1**
**Rheolaeth dda**
Tudalen 8



**Safon 2**
**Mae'r sefydliad yn adrodd yn ôl ar pa mor dda mae'n gwneud ei waith ac yn gwrando ar adborth**
Tudalen 11



**Safon 3**
**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**
Tudalen 14



**Safon 4**

**Gweithio gydag eraill**

Tudalen 16




**Safon 5**

**Mae gan y sefydliad ei safonau ac arweiniad ei hun**

Tudalen 18



**Safon 6**

**Hyfforddiant i ymarferwyr**

Tudalen 20



**Safon 7**

**Gwirio ansawdd yr hyfforddiant**

Tudalen 22




**Safon 8**

**Y gofrestr gyhoeddus**

Tudalen 24




**Safon 9**

**Sut i gofrestru**

Tudalen 26



**Safon 10**

**Diogelu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth gywir a chyfredol am bobl ar y rhestr**

Tudalen 29



**Safon 11**

**Gwneud yn siŵr y gall rhywun sy'n gweithio mewn gofal iechyd aros ar y rhestr**

Tudalen 30



**Safon 12**

**Codi cwynion am rywun ar restr**

Tudalen 32



**Safon 13**

**Ymchwilio i gwynion a delio â nhw mewn pryd**

Tudalen 35



**Safon 14**

**Ymchwilio i gwynion a delio â nhw mewn ffordd deg**

Tudalen 37



**Safon 15**

**Cwynion am bobl ar y rhestr a allai fod yn risg**

Tudalen 39




**Safon 16**

**Cefnogaeth i bawb sy'n cwyno**

Tudalen 41




# Rhagarweiniad




Mae sefydliadau o'r enw **Rheolyddion** a **Chofrestrau Achrededig**:

- yn rheoli rhestrau o bobl mewn gofal iechyd



- yn gwneud yn siŵr fod pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn gwneud eu gwaith yn dda.




Mae’r **Awdurdod Safonau Proffesiynol** yn gwneud yn siŵr bod y sefydliadau yma’n gweithio’n dda ac yn diogelu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd.




Rydyn ni’n gwneud y gwaith yma trwy:

- gael **16 Safon** mae angen i sefydliadau eu bodloni



- cefnogi'r sefydliadau yma i wella pa mor dda maen nhw'n gweithio.

professional standards authority
for Health and Social Care

Mae ein **16 Safon** yn rhan bwysig o’n gwaith.




Yn y ddogfen Hawdd i’w Ddarllen yma, rydyn ni’n edrych ar y Safonau:

- pam eu bod yn bwysig



- beth sydd angen i sefydliadau ei wneud i’w bodloni.



# Safon 1

## Rheolaeth dda



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae’r bobl sy’n arwain y sefydliad yn gwneud yn siŵr bod:



- cleifion a'r cyhoedd wedi eu diogelu



- cleifion a’r cyhoedd yn gwybod bod y sefydliad yn gwneud ei waith yn dda.



## Pam ei fod yn bwysig

Dylai’r sefydliad:

- gael arweinwyr da



- wneud penderfyniadau da



- gadw cleifion a’r cyhoedd yn ddiogel.



## Golyga hyn

- weithio’n dda




- wella sut mae'n gweithio



- wneud yn siŵr fod y cyhoedd yn gwybod eu bod yn gwneud gwaith da



- gefnogi ei weithwyr



- wneud penderfyniadau da yn defnyddio gwybodaeth dda



- wrando ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd ac yn gweithio mewn gofal iechyd



- wneud yn siŵr fod y bobl sy’n gweithio mewn gofal iechyd yn gweithredu er lles cleifion a’r cyhoedd.



# Safon 2
## Mae’r sefydliad yn adrodd yn ôl ar pa mor dda mae’n gwneud ei waith ac yn gwrando ar adborth




### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae’r sefydliad yn adrodd yn ôl ar pa mor dda mae’n gwneud ei waith.



Mae’r sefydliad yn gwella sut mae'n gweithio.



Mae’r sefydliad yn gwrando ar adborth ar pa mor dda mae’n gwneud ei waith.



## Pam ei fod yn bwysig

Mae cleifion a’r cyhoedd yn gwybod bod y sefydliad yn:



- adrodd pa mor dda mae’n wneud mewn gwahanol feysydd



- gwrando ar adborth a gweithredu.




## Golyga hyn

- fod yn onest wrth adrodd yn ôl ar pa mor dda mae’n gwneud ei waith



- ddysgu gan sefydliadau eraill sut i wella sut mae’n gweithio



- weithredu ar unrhyw faterion a godwyd.



# Safon 3

## Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad:

- yn cymryd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant o ddifrif



- yn gweithredu i wneud pethau'n fwy teg.



### Pam ei fod yn bwysig

Dylai pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd o amrywiol grwpiau:



- gael eu trin yn deg gan y Rheolyddion a Chofrestrau Achrededig



- gael profiad tebyg wrth ddelio â’r sefydliadau yma.



**Golyga hyn**

- ddeall amrywiaeth pawb sy'n gweithio gyda ac yn delio â’r sefydliad



- gael polisïau clir a theg:
    - mae pawb yn eu deall



    - sy'n bodloni anghenion amrywiol grwpiau



- wneud yn siŵr fod grwpiau amrywiol yn cael cyfleoedd a chanlyniadau teg ac yn cael eraill i wneud yr un fath.



# Safon 4
## Gweithio gydag eraill



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae’r sefydliad yn gwella trwy weithio’n agos gydag eraill.



Mae’r sefydliad yn rhannu gwybodaeth am bobl sy’n gweithio mewn gofal iechyd.



### Pam ei fod yn bwysig

Gellir ysgrifennu gwell polisïau trwy weithio gyda sefydliadau eraill.



Mae yna lai o risg i'r cyhoedd trwy rannu gwybodaeth am bobl yn gweithio mewn gofal iechyd.



**Golyga hyn**

- weithio'n agos gyda sefydliadau eraill a rhannu gwybodaeth am risgiau i’r cyhoedd




- wneud yn siŵr fod polisïau yn gweithio’n dda trwy rannu gwybodaeth



- weithiau ddefnyddio polisïau tebyg i sefydliadau sydd:



  - gwella ansawdd gofal
  - bodloni anghenion cleifion a’r cyhoedd.




# Standard 5

## Mae gan y sefydliad ei safonau ac arweiniad ei hun




### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae’r sefydliad yn cyhoeddi safonau ac arweiniad i bobl yn gweithio mewn gofal iechyd.



Mae'r safonau ac arweiniad yn gwneud yn siŵr fod pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn deall sut y disgwylir iddynt weithio.



### Pam ei fod yn bwysig

Mae’r safonau ac arweiniad:

- yn gwneud yn siŵr fod pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn gweithio i safon benodol



- yn helpu diogelu cleifion a’r cyhoedd trwy gefnogi gofal diogel ac o ansawdd uchel.



Pan fydd yna broblemau, maen nhw'n ein helpu i benderfynu os dylai rhywun sy’n gweithio mewn gofal iechyd ddal i wneud eu swydd.



## Golyga hyn

- mae pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn deall safonau'r sefydliad ar gyfer gweithio'n ddiogel a gwneud gwaith da




- mae safonau ac arweiniad yn cael eu diweddaru i gynnwys meysydd risg sy'n helpu diogelu'r cyhoedd



- mae safonau ac arweiniad yn caefnogi timau cefnogaeth o bobl gyda gwahanol swyddi gofal iechyd i weithio'n ddiogel gyda’i gilydd.



# Safon 6

## Hyfforddiant i ymarferwyr




### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn rhannu safonau ynghylch dysgu a hyfforddi:

- sy'n gyfoes



- sy'n amddiffyn y cyhoedd



- sy'n helpu dysgwyr i weithio'n ddiogel ac yn dda i fodloni anghenion pobl amrywiol.



### Pam ei fod yn bwysig

Dylai pawb wybod bod pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn cael yr hyfforddiant cywir i gynnig gofal diogel a da.



Dylai cleifion a'r cyhoedd sy'n cael triniaeth gan weithiwr gofal iechyd dan hyfforddiant wybod bod y gweithiwr yn cael ei reoli'n dda.




**Golyga hyn**

- mae'r safonau ar gyfer dysgu a hyfforddi yn gyfredol



- mae'r safonau hyn yn gwneud yn siŵr:
    - bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu trin yn dda ac yn cael eu diogelu



    - bod anghenion pobl amrywiol yn cael eu bodloni



- bod sefydliadau hyfforddi a chyrsiau hyfforddi yn cael eu gwirio.



# Safon 7
## Gwirio ansawdd yr hyfforddiant



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn gwneud yn siŵr bod hyfforddiant yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ddysgwyr.



Mae'r sefydliad yn cynnig lle diogel i eraill ddysgu.




### Pam ei fod yn bwysig

Mae sefydliadau'n gosod eu safonau eu hunain ar gyfer hyfforddi pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd.



Mae sefydliadau'n cynnal gwiriadau ansawdd i wneud yn siŵr:

- y bodlonir y safonau hyn



- bod hyfforddiant yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar bobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd i wneud gwaith da



- bod cleifion a'r cyhoedd yn gwybod bod gan yr hyfforddai maen nhw'n cael triniaeth ganddo'r sgiliau a'r wybodaeth gywir.



### Golyga hyn

- mae gwiriadau ansawdd sefydliadau hyfforddi yn glir ac yn fanwl




- cymerir camau ynghylch hyfforddiant os nad yw cleifion a'r cyhoedd yn ddiogel




- mae’n hawdd i gleifion a'r cyhoedd ddod o hyd i wybodaeth am wiriadau ansawdd.




# Safon 8
## Y gofrestr gyhoeddus



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn cadw rhestr gyfoes o bobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd sy'n hawdd ei defnyddio.




Mae gwybodaeth am bwy **na all** fod ar y rhestr yn hawdd ei deall.



### Pam ei fod yn bwysig

Dylai fod yn hawdd i gleifion a'r cyhoedd wirio a yw rhywun sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn gymwys i wneud eu gwaith.



### Golyga hyn


- mae gwybodaeth am bobl ar y rhestr yn gyfredol, yn hawdd dod o hyd iddi ac yn hawdd ei deall




- mae'r rhestr yn cynnwys gwybodaeth sy'n helpu amddiffyn y cyhoedd




- mae'r rhestr yn ei gwneud hi'n glir beth mae pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn cael ei wneud



- mae system ar waith i ddiweddaru a gwirio ansawdd y rhestr.




# Safon 9
## Sut i gofrestru



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn sicrhau:

- mai dim ond y bobl gywir sy'n gweithio mewn gofal iechyd all fod ar y rhestr



- mai dim ond busnesau gofal iechyd sy'n cael eu rhedeg yn dda all fod ar y rhestr.




### Pam ei fod yn bwysig

Mae pawb yn gwybod:

- sut i ymuno â'r rhestr



- bod y rhestr yn cael ei rhedeg yn deg



- mai dim ond pobl sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau gofal iechyd cywir all fod ar y rhestr



- mai dim ond busnesau gofal iechyd sy'n cael eu rhedeg yn dda all fod ar y rhestr



**Golyga hyn**

- dim ond pobl sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau cywir all fod ar y rhestr



- mai dim ond busnesau gofal iechyd sy'n cael eu rhedeg yn dda all fod ar y rhestr



- mae pawb yn gwybod sut i:
  - ymuno â'r rhestr
  - apelio os na chaniateir i chi ymuno â'r rhestr



- mae sut fyddwch yn ymuno â'r rhestr ac apelio yn deg ac mae'n gweithio'n dda



- mae penderfyniadau am ymuno â'r rhestr ac apelio yn hawdd eu deall.




# Safon 10

## Diogelu'r cyhoedd gyda'r wybodaeth gywir a chyfredol am bobl ar y rhestr



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn atal pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd rhag rhoi'r wybodaeth anghywir amdanyn nhw eu hunain i gleifion a'r cyhoedd.



### Pam ei fod yn bwysig

Mae llai o risg y bydd cleifion a'r cyhoedd yn cael triniaeth neu wasanaethau gan bobl nad oes ganddynt yr hyfforddiant neu'r sgiliau cywir.




### Golyga hyn

- Mae gan y sefydliad bolisïau:
  - i reoli pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd sy'n rhoi'r wybodaeth anghywir




  - sy'n cael eu diweddaru pan fo angen.



# Safon 11

## Gwneud yn siŵr y gall rhywun sy'n gweithio mewn gofal iechyd aros ar y rhestr



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn gwneud yn siŵr bod pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd ar y rhestr yn parhau i fod â'r sgiliau cywir a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith yn dda.



### Pam ei fod yn bwysig

Mae sgiliau pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn cael eu cadw'n gyfredol, felly maen nhw bob amser yn cynnig gofal diogel a da.




Mae'r gwiriadau'n gwneud yn siŵr mai dim ond pobl sydd â'r hyfforddiant a'r sgiliau cywir sydd ar y rhestr.



### Golyga hyn

- Mae gan sefydliadau wiriadau ansawdd sy'n deg



- Mae sefydliadau'n gwneud yn siŵr bod gan bobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd y sgiliau cywir i barhau i wneud eu gwaith yn dda





- Mae'r sefydliad yn glir am beth mae pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd:
    - angen ei wneud i aros ar y rhestr



    - angen ei wneud i ddiweddaru eu hyfforddiant a'u sgiliau.



Mae'r sefydliad yn cefnogi pobl sy'n gweithio mewn gofal iechyd i wneud yr hyfforddiant cywir.




Mae pawb sy'n gweithio mewn gofal iechyd yn gwybod beth sydd angen iddyn nhw ei wneud i aros ar y rhestr.



# Safon 12


Codi cwynion am rywun ar restr



## Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad:

- yn gwneud yn siŵr ei bod hi'n hawdd i gleifion a'r cyhoedd wneud cwyn




- yn glir am y math o gŵyn y gall cleifion a'r cyhoedd ei gwneud



- yn glir am pwy sy'n delio â chwynion.



## Pam ei fod yn bwysig

Dylai cleifion a'r cyhoedd allu gwneud cwynion difrifol am bobl ar y rhestr.



Mae’n bosibl gwneud cwynion llai difrifol i sefydliadau eraill fel ysbyty.



## Golyga hyn

- Gall unrhyw un gael gwybodaeth am:
  - sut i godi cwyn am rywun ar y rhestr



  - y math o gwynion y gallant eu gwneud



  - sut y byddant yn delio â’u cwyn



- Gall unrhyw un godi cwyn am rywun ar y rhestr



- Bydd y sefydliad cywir yn delio â chwynion am bobl ar y rhestr.



# Safon 13

## Ymchwilio i gwynion a delio â nhw mewn pryd



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn ymchwilio i gwynion am bobl ar y rhestr ac yn delio â nhw cyn gynted â phosibl.



### Pam ei fod yn bwysig

I wneud yn siŵr:

- bod cwynion yn cael eu datrys mewn pryd



- bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu diogelu rhag y person y cwynir amdano cyn gynted â phosibl.



Caiff y gŵyn ei thrin cyn gynted â phosibl er mwyn cefnogi iechyd a lles pobl.



### Golyga hyn

Mae pob cwyn yn cael sylw cyn gynted â phosibl.



# Safon 14

## Ymchwilio i gwynion a delio â nhw mewn ffordd deg




### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae polisïau'r sefydliad ar gyfer gwirio a delio â chwynion am bobl ar y rhestr yn deg ac yn hawdd eu deall.



Mae'r sefydliad hefyd yn gwneud i gleifion a'r cyhoedd deimlo'n hyderus y byddant yn cael eu diogelu.



### Pam ei fod yn bwysig

Er mwyn gwneud yn siŵr bod pob penderfyniad ynghylch cwynion:

- yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd



- yn deg i'r person ar y rhestr y cwynir amdano.



## Golyga hyn

Mae'r ffordd mae sefydliad yn **delio â chwynion** am bobl ar y rhestr yn deg ac yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.



Mae'r **penderfyniadau** a wneir ynghylch cwynion yn deg ac yn amddiffyn cleifion a'r cyhoedd.



Mae'r sefydliad yn **esbonio'n glir** sut mae'n gwneud penderfyniadau ynghylch cwynion.



# Safon 15

Cwynion am bobl ar y rhestr a allai fod yn risg



## Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad bob amser yn dod o hyd i bobl ar y rhestr a allai fod yn **risg ddifrifol** i ddiogelwch a hyder y cyhoedd ac yn eu rheoli.



Mae'r sefydliad yn cymryd camau i stopio pobl rhag gwneud pethau sydd ddim yn ddiogel cyn gynted â phosibl.



## Pam ei fod yn bwysig

Caiff cleifion a'r cyhoedd eu diogelu cyn gynted â phosibl os gallai'r person sy'n gweithio mewn gofal iechyd y mae’r cwyn amdano fod yn risg.




## Golyga hyn

Gall y sefydliad bob amser weithio allan faint o risg sydd ar gyfer pob cwyn.




Os yw person ar y rhestr yn risg uchel i gleifion a'r cyhoedd, dylai'r sefydliad **weithredu'n gyflym**.



Yna dim ond rhai swyddi y gall y person ar y rhestr eu gwneud tra bod y gŵyn yn cael sylw.



# Safon 16
## Cefnogaeth i bawb sy'n cwyno



### Beth ydyn ni'n ei ddisgwyl

Mae'r sefydliad yn cefnogi unrhyw un sy'n gwneud cwyn tra byddant yn delio â hi.




Mae'r sefydliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl sy'n cwyno ac yn gwneud hyn cyn gynted â phosibl ac mewn ffordd barchus.



### Pam ei fod yn bwysig

Gall pawb sydd wedi ei effeithio gymryd rhan yn y gŵyn.



Mae unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r gŵyn yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen.



Mae pawb yn cael eu cefnogi i roi'r wybodaeth orau bosibl am y gŵyn i'r sefydliad.



**Golyga hyn**

Mae pawb yn cael y wybodaeth ddiweddaraf tra byddant yn delio â’r cwyn.



Mae pawb yn cael eu trin â pharch.



Caiff y gŵyn ei thrin cyn gynted â phosibl er mwyn cefnogi iechyd a lles pobl.

Cynhyrchwyd y ddogfen Darllen Hawdd hon ar y cyd gan **arbenigwyr drwy brofiad IC Works** a'r **Awdurdod Safonau Proffesiynol**.


professional standards authority
for Health and Social Care

IC Works

**Awdurdod Safonau Proffesiynol**
16-18 New Bridge Street
London EC4V 6AG

020 7389 8030
info@professionalstandards.org.uk
**www.professionalstandards.org.uk**

**IC Works Ltd**
190 Poynters Rd,
Luton, LU4 OLD

07788 587 175
findouthow@ic-works.co.uk
www.easy-read-documents.com